

Cyngor Cymuned Llanllyfni
Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor – nos Fawrth y 14eg o Ebrill 2015.

1. Presennol: Iwan Lloyd Williams (Cadair), Barry Bracegirdle, Nerys Williams, Justin Davies - Penygroes; Hefina MW Roberts, Gwyndaf Roberts, OP Huws - Llanllyfni; Harry Wyn Owen, D Martin Williams - Talysarn; Eurig Wyn Evans - Nebo; Ffion Jones – Nantlle. Colin Jones - Cyngor Gwynedd; Peter Simpson - Cyngor Gwynedd; Craig ab Iago - Cynghorydd Sir / **Ymddiheuriadau:** Sharon Wynne Jones, Dafydd Glyn Owen - Talysarn.

Cyn cychwyn ar y cyfarfod, cafwyd y newyddion trist o farwolaeth Ifan Glyn Jones, a fu'n Aelod o Gyngor Cymuned Llanllyfni am nifer fawr o flynyddoedd. Cafwyd munud o dawelwch.

2. Colin Jones – Cyngor Gwynedd. Croesawyd Colin i'r cyfarfod - trafod prosiect parcio Llanllyfni yn bennaf. Parcio di-ystyriol a pheryglus yn y pentref - cyfrifoldebau i'w trosglwyddo i'r gymuned, a Cyngor Gwynedd yn methu ariannu. Byddai'n rhaid codi grwp yn y gymunedol a fyddai'n barod i gymryd y gyfrifoldeb o godi arian tuag at y fenter, derbyn caniatad cynllunio, caniatad y 'fields in trust'. Byddai Cyngor Gwynedd yn fodlon rhoi arweiniad ar hyd y ffordd. Craig yn datgan ei fod yn bryderus na fyddai digon o gefnogaeth yn y pentref gan mai nifer fechan iawn ddaeth i'r cyfarfod agored cychwynnol. Gofynwyd i Gynghorwyr Llanllyfni drafod, ac adrodd yn ol i'r Cyngor llawn fis nesaf efo barn y pentref. Angen edrych yn ofalus ar reoli risgiau. Gofynwyd i Colin beth oedd y mesuriadau tymor byr - dywedodd fod baeau parcio wedi eu marcio ar y ffordd, ac hefyd y byddai efallai, rhyw dro, bosib ymestyn y gilffordd ar Lon Ddwr.

Gofynwyd wrth Colin am ystadegau tocynnau parcio Co-op, Penygroes - roedd 15 o rybuddion wedi eu rhoi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Y broblem fwyaf yw diffyg staff, ond bod y Cyngor yn ceisio cael mwy o swyddogion ar or-amser. Gobeithio rhoi mwy o sylw i Benygroes yn ystod y misoedd nesaf. Pryder am y parcio yn y bore rhwng 8.30 a 9.30, sef yr amser mae plant ysgol fwyaf o gwmpas, a bysiau ysgol yn pasio. Dywedwyd bod pryder am loriau a bysiau yn teithio ar hyd Allt Goch (gorchymyn pwysau) - dywedodd Colin y byddai yn cadw golwg ar y sefyllfa efo'r heddlu. Diolchwyd Colin am fynychu'r cyfarfod. CRAIG a COLIN yn gadael y cyfarfod.

Peter Simpson - Cyngor Gwynedd. Croesawyd Peter i'r cyfarfod - trafod problemau baw cwn y Dyffryn. Yn galonogol iawn, does dim llawer yn cwyno am gwn yn baeu mewn ardaloedd ble mae arwyddion i fyny, ac yn gyffredinol, mae 20% yn llai o gwynion. Penygroes wedi ei adnabod if od yn ardal ble mae problemau eitha rheolaidd, a mae cynydd wedi ei wneud yn y nifer o 'patrols' yn yr ardal. Mae dau fin ychwanegol wedi eu gosod ym Mhenygroes, ac mae angel perswadio perchnogion i ddefnyddio'r biniau. Brodyr Gregory wedi gwneud sioe amgylcheddol yn Bro Lleu, a oedd yn cynwys neges am faw cwn. Angen rhannu gwybodaeth efo'r Cyngor - pwy? pryd? faint o'r gloch? - yr wybodaeth yn hollol gyfrinachol. Mae ymgyrchodd lleol yn creu neges gryfach. Y dirwy wedi cynyddu o£75 i £100. Bin aml-bwrpas yn cael ei leoli yn Nantlle ar y palmant ar y ffordd i'r ysgol - baw cyffredin a baw cwn yn yr un bin. Mae sail da i gychwyn ar ymgyrch yn ardal Dyffryn Nantlle, a byddai Cyngor Gwynedd yn fodlon helpu efo costau argraffu pamffledi. Byddai angen canolbwyntio ar gyfryngau gwahaol yn ogystal e.e facebook, ar y we, papur bro. Penderfynwyd codi is-grwp - HEFINA, JUSTIN, DAFYDD GLYN, FFION. Creu mapiau yn gyntaf (Justin/Peter) cyn cyfarfod cyntaf o'r is-bwyllgor. Peter yn dweud ei fod yn ceisio ei orau i barhau i ddenu arian Trefi Taclus, ond fod y cyllid hwn yn anoddach ei gael rwan. Diolchwyd Peter am ddod i'r cyfarfod - adeiladol iawn. Byddwn yn cyd-weithio er mwyn symud ymlaen efo'r prosiect.

3. Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir. 10 - Goleuadau Nadolig - Gwyndaf; 8 - Bragdy Lleu - OP Huws a Justin; OP Huws/Harry Wyn - eitem Colin Jones parcio;

4. Cywirdeb cofnodion cyfarfod Mis Mawrth. Angen cywiro rhif 82 Trem yr Wyddfa, nid 81 Trem yr Wyddfa. Hefina yn datgan cywirdeb Harry yn eilio. Cydymdeimlwyd a Ffion ar golli ei thad, Les Jones.

5. Materion yn codi o'r cyn gofnodion. Dim.

6. Adrodd yn ol o unrhyw gyfarfod is-bwyllgor. Ni fu unrhyw gyfarfod ychwanegol yn ystod y mis.

7. Cynllunio

C15/0315/22/LL – Hen Siop, Nasareth – dymchwel estyniad deulawr to fflat a chodi estyniad deulawr brig yn ei le (ail gyflwyniad). Cymeradwyo.

8. Gohebiaeth.

Cyngor Gwynedd

*Ymatebion i gwynion - darllenwyd yr ymatebion. Cysylltu efo Dilwyn Lloyd yn gofyn wrtho wneud cais i Colin Jones, Cyngor Gwynedd i leoli'r gofeb o'r Eglwys ym maes parcio'r Ganolfan Talysarn. Dim lleoliad arall addas gan Gyngor Gwynedd.

*Baw Cwn - trafodaeth adeiladol iawn efo Peter Simpson.

*Gorchymyn Diwygio Llwybr Troed 132 ac 133. Y Cyngor yn ddiolchgar iawn o'r gwaith caled mae Cyngor Gwynedd wedi ei roi i fewn.

*Amserlen Ffordd Osgoi Caernarfon Bontnewydd. Er gwybodaeth.

*Gorchymyn Gwahardd a Chyfyngu Aros a Mannau Parcio Stryd. Darllenwyd y manylion. Derbyn.

*Cais i ystyried safle parcio newydd ar gyfer trigolion Llanllyfni - gweler eitem uchod Colin Jones.

*Gorchymyn Gwaharddiadau Trafnidiaeth Trwodd Dros Dro Ffordd Rhiwlas, Talysarn. Er gwybodaeth.

*Newidiadau i'r gwasanaeth cynghori – Gwasanaeth Cynllunio ac Amgylchedd. Darllenwyd yr wybodaeth.

*Hysbysiad o Gais Trwyddedu – Bragdy Lleu Cyf. Justin / OPH datgan diddordeb. Cymeradwyo.

Arall

*Un Llais – Ymgynghoriad Eithriadau i'r Premiwm Treth Cyngor; Adolygiad o dirweddau dynodedig yng Nghymru. Er gwybodaeth.

*Ffeithlen CPLIL – absenoldebau mamolaeth, tadolaeth ayyb. Cadw er gwybodaeth.

*The Clerk. Ar y bwrdd.

*Dynodiad Awyr Dywyll Eryri. Er gwybodaeth. Dim sylwadau.

*CPP – PRA Cais am arian tuag at y CCTV ym Mhenygroes. Trafod mis nesaf - ail-edrych ar y fframwaith cyfraniadau ariannol. Faint sydd yn y gyllideb a faint sydd wedi ei rannu?

9. **Gwefan** - Justi wedi siarad efo Robat, Antur Nantlle i newid steil y wefan.

10. **Goleuadau Nadolig** - ar agenda mis nesaf.

11. **Materion Pentrefi. Penygroes** Map busnesau Penygroes - y gwaith wedi ei wneud yn barod - Justin am holi pris argraffu a'i osod. Caniatad eisioes wedi ei roi i'w leoli yn y maes parcio wrth Poveys; Twll yn y gwli wrth 55 Trem yr Wyddfa. **Nebo** - llanast ar ol y loriau ailgylchu - llythyr i Gyngor Gwynedd i gadw llygad. **Nantlle** Rwbela yn y gilfan wrth Gelli - cysylltu efo Cyngor Gwynedd; Gofyn am arwydd ARAFU ger y cae chwarae.

12. **Llwybrau a Mynwentydd.** TENDR MYNVENTYDD - Cytundeb; Cynllun MacPelah; Taliad llwybrau wedi ei dderbyn. Trefnu cyfarfod safle at nos Fawrth nesaf, a symud ymlaen i bwyllgor yn festri Soar; Llwybr 104 Turnpike i Talymignedd - ceffylau yn y cae, ac yn malu'r llwybr.

13. **Materion yn ymwedd a'r heddlu.**

14. **Materion ariannol.** Dyddiad archwiliadau ariannol. Archiwiliad mewnol ganol Mai.

***Taenlen i'w chymeradwyo.**

***Biliau i'w talu** – A Johnson ffon/rhyngwrwyd £25; A Johnson – derbynebau; Zurich £1279.10; Neuadd Goffa Penygroes £70.00; Lleu £15.00; Dwr Cymru £121.87.

***Ceisiadau am Arian** Age Cymru - trafod Chwefror. Seindorf Arian Dyffryn Nantlle - roedd y llythyr cais wedi ei bostio ar amser, ond wedi ei yrru i'r cyfeiriad anghywir ac felly cyrraedd y Cyngor Cymuned ar ol dyddiad cyfarfod Chwefror 2015. Penderfynwyd cyfrannu £100.